# <u>Cofnodion</u> Cyngor Cymuned Pentir

**Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 26ain o Fai 2021**
**yn Rhithiol am 7.00pm.**

Presennol Cyng L A James – Cadeirydd Cyng D Jones-Morris a Cyng B Jones,

Am gyflwyniad yn y rhan gyntaf o'r cyfarfod Merion Jones Clerc Cyngor Cymuned Llanrug Cyng Phillip Roberts a'r Cyng Avril Jones Cadeirydd ag Is Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug

<u>Ymddiheuriadau</u> Cyng J Pierce, Cyng D W Jones

Cod Ymddygiad
Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi

Rhoddwyd cyflwyniad i sustem gofnodi electronig sydd gan Cyngor Cymuned Llanrug oedd yn sicr yn agoriad llygaid ag o bosib y ffordd ymlaen i foderneiddio y sustem gofnodi angladdau/beddi a.y.y.b i'r dyfodol
Trafodwyd y posibiliadau oedd yn bosib ei wneud i arbed amser yn ogystal ag os oedd yn angen stadudol fod cofnodi o'r fath yn cael ei ganiatau yntau os oedd angen llyfrau yn ychwanegol i'r sutem
Trafodwyd y costau oedd angen ei dalu i'r Cwmni Technegol oedd yn rhoi diweddaru fel bo'r angen.
Diolchwyd y swyddogion Llanrug am ei amser

<u>Cofnodion Cyfarfod diwethaf</u> 28-04-2021
Cyng D Jones-Morris yn cynnig a'r Cyng B Jones yn eilio eu bod yn gofnodion cywir

Materion yn codi o'r cofnodion
Dim nad oedd wedi ei gynnwys ar yr Agenda

Adroddiad Ariannol
Rhannwyd y daflen ariannol y rhithiol ar y sgrin
Yn y cyfrif <u>Cyfredol £17,764.37 a £25,037.81 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn £0.62c o log</u>

Archwylwyr Allannol
Dim wedi ei adrodd yn ol

Argymhellwyd talu'r anfonebau a ganlyn
Yswiriant Hiscox **£1220.28** Cyflog Mai **£599.84** Treth Incwm Mis Mai **£150.00**
Torri Gwair Ebrill **£685.00** Costau storio yn Neuadd Rhiwlas **£240.00**
Beth Horocks Dylunydd y Logo **£250.00**

Argymell trosglwyddo £10K o'r Cyfrif Cyfredol i'r Cyfrif Cadw fel sydd wedi ei wneud ers 2 flynedd i ddarparu ar gyfer gwaith ychwanegol yn y Ganolfan newydd

Ceisiadau Nawdd Llythyr/Cais wedi ei dderbyn o Ty Gobaith ond dim mantolen arian o unrhyw fath Gan fod derbyn mantolen ariannol yn orfodol gofynwyd i'r Clerc gysylltu yn ol a'r Elusen i holi

Prosiectau

I. **Prosiect Ysgol Y Faenol** Cyng L A James yn adrodd fod ymholiad wedi ei wneud ynglyn a chyfrifoldeb llnau'r gaolfan. Bydd angen trefnu cyfarfod arbennig gydag eraill i drafod manylion am y math yma o wasanaethau hynny yn y misoedd nesaf
II. **Gamlins** – angen sicrhau fod prydles newydd yn ei lle mor fuan a phosib

III. **Septic Tanc Glasinfryn** Cyfarfod safle wedi digwydd a chynlluniau wedi eu derbyn Wedi derbyn tecst gan berchennog The Old School Barn yn cyfeirio at ei bwriad i ymuno a'i bibell garffosiaeth oedd o wedi ei osod

IV. Logo Cyng L A James samplau wedi eu dewis ag am fynd yn ol i gadarnhau pa samplau oedd yn mynd i ag ar le

<u>Trafodwyd hefyd</u>

- Cysgodfan Nant y Mownt Y Clerc wedi cysylltu hefo'r Contractwr gan ddarganfod nad oedd bellach yn ymwneud a gosod Cysgodfannau oherwydd y Covid
- **Clerc angen cael gafael ar contractwr arall**

- Asesu Risg
  Dim diweddariad ond angen ail-ddosbarthu'r gofrestr <u>i bawb</u> gan y bydd angen ei adolygu ar gyfer y Flwyddyn ariannol 2021-22 a chael gwirfoddolwyr i edrych ar rai elfennau o'r gofrestr ac argymell pa gamau gweithredu sydd ei angen i leihau y risgiau hynny oedd wedi eu adnabod

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10